Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 10 Rhagfyr 2021

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru - Drafft |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r bwrdd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (REF) drafft ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r REF ar gyfer Gogledd Cymru yn hyrwyddo datblygu economaidd cydweithredol ar draws y rhanbarth trwy weledigaeth gytûn a rhannu blaenoriaethau ar gyfer cyflawni ymhlith partneriaid rhanbarthol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Argymell y drafft 'Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru' i'w fabwysiadau gan bob awdurdod lleol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR**

4.1 Sefydlodd Cynllun Gweithredu Economaidd, Llywodraeth Cymru'r sylfaen ar gyfer gweithio rhanbarthol, gan gynnwys ymrwymiad i ddarparu llais rhanbarthol cryfach trwy fodel datblygu economaidd â ffocws rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu timau rhanbarthol a datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (REFs).

4.2 Mae datblygu REFs yn rhan hanfodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fodel datblygu economaidd â ffocws mwy rhanbarthol, gan gefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, a chyfrannu at Nodau Lles Cymru.

4.3 Wrth ddatblygu'r REFs, rhaid ystyried yr adferiad sy'n ofynnol yn sgil pandemig Coronavirus, a'r dyheadau hir dymor ar gyfer y rhanbarthau.

4.4 Mae REFs wedi'u bwriadu fel cyfrwng i helpu i hyrwyddo cynllunio a darpariaeth ranbarthol gydweithredol ymhlith partneriaid sector cyhoeddus, preifat a trydydd. Bydd y cyflawni yn canolbwyntio ar un weledigaeth a rennir ar gyfer pob rhanbarth a'i chefnogi gan gyfres o flaenoriaethau ac egwyddorion rhanbarthol.

4.5 Bydd datblygu REFs yn allweddol wrth lywio a dylanwadu ar gyflawni blaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cymru.

## 5. FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTHOL

5.1 Er mwyn creu'r REF drafft cyntaf ar gyfer Gogledd Cymru, mae swyddogion o swyddfa ranbarthol Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu wedi'i dargedu ag ystod o randdeiliaid rhanbarthol allweddol i gyd-ddylunio'r dull hwn o ddatblygu economaidd yn seiliedig ar le.

5.2 Mae drafft cyntaf y REF, yn adeiladu ar waith sy'n bodoli eisoes, ac yn nodi'r blaenoriaethau a rennir ar gyfer y rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â dyheadau Llywodraeth Cymru am economi llesiant sy'n gyrru ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial.

5.3 Cyflwynir blaenoriaethau economi llesiant yn y REF o dan dair thema:

- Yr Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol
- Yr Economi Profiad
- Yr Economi Carbon Isel ac Allyriadau Isel

5.4 Mae'r blaenoriaethau'n hyblyg, a bydd yn caniatáu i'r rhanbarth addasu ac ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir dros yr 20 mlynedd nesaf.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

---

**ATODIADAU:**
Atodiad 1 – Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol mewn Cyd-destun
Atodiad 2 – Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru – Drafft

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
Mae'r argymhelliad yn cael ei wneud I'r awdurdodau unigol a bydd angen iddynt sefydlu eu trefn craffu a chymeradwyo er symud y mater ymlaen.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.